

Cyfarwyddiadau ac Arweiniad Tendir ar gyfer:

Rhentun Uned 1 Tŷ Hanbury, Stryd Gymreig, Cas-gwent, NP16 5LL

Amodol ar Gontract a Chymeradwyaeth Ffurfiol y Cyngor

1. Mae'n rhaid i gyflwyniad tendrau gael eu nodi a'u labelu'n glir yn **"Uned 1 Tendir Rhent Tŷ Hanbury"** ar gyfer sylw Gwasanaethau Democrataidd ac o fewn amlen y medrir ei dynodi'n rhwydd i sicrhau na chaiff cynigion eu hagor cyn diwrnod cau'r tendr. Mae'n rhaid i dendrwy'r gyflwyno eu tendrau'n defnyddio'r ffurflen amgaeedig erbyn **dim hwyrach na 5pm dydd Iau 29 Mehefin 2017** a'i delifro i:

Adran Stadau
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA
2. **Mae'n rhaid i'r cyflwyniad nodi'n glir os yw'r cynnig yn cyfeirioi at 1 uned (yr holl ofnod) neu 1 neu 2 uned ar ôl eu rhannu.**
3. **Ni chaniateir unrhyw farciau gwahaniaethu yn dynodi'r cynigydd ar yr amlen, bydd methiant i gydymffurfio gyda'r gofyniad hwn yn golygu na chaiff y tendr ei dderbyn na'i ystyried. Ni chaiff unrhyw dendr a dderbynnir ar ôl yr amser a'r dyddiad a nodir uchod ei dderbyn neu ei ystyried.**
4. Ni chaiff unrhyw gynigion eu hagor a'u hystyried cyn y dyddiad a'r amser a nodir uchod.
5. Bydd y Cyngor (Landlord) yn ei gwneud yn ofynnol i'r tendr llwyddiannus gyfarwyddo eu cyfreithwyr, ar eu cost eu hunain, yn syth ar ôl derbyn cadarnhad y cafodd y tendr ei dderbyn ac ymrwymo i les, o'r uned(au) gofynnol o fewn dim mwy na wyth mis calendr o dderbyn drafft ddogfennau les ddrafft.
6. Bydd y tendrwr llwyddiannus yn gyfrifol am eu costau eu hunain yn gysylltiedig gyda gosod yr uned (yn cynnwys costau cyfreithiol).

7. Dylai'r holl gynigion ariannol gael eu nodi mewn punnoedd sterling ac nid ydynt yn cynnwys treth ar werth.
8. Mae angen cadarnhad y gall y sawl sy'n tendro roi, lle gofynnir am hynny, un ai, a/neu, unrhyw un o'r dilynol: cynllun busnes ar gyfer y cynnig; tystlythyr landlord blaenorol; tystlythyr banc; tystlythyr credyd; gwarantwr.
9. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod yr uchaf neu unrhyw gynnig a dderbyniwyd.
10. Nid yw hyn yn dendr ffurfiol ac ni chaiff unrhyw gontract ei greu drwy dderbyn unrhyw gynnig neu bid mewn ymateb i'r cais. Bydd hyn yn parhau i fod y sefyllfa nes y cafodd contractau ffurfiol eu cytuno a'u cyfnewid.
11. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiystyru unrhyw ddiffyg i gydymffurfio gyda telerau'r uchod tra'n derbyn unrhyw gynnig neu bid, ond yn cadw'r hawl i fynnu cydymffurfiaeth dilynol cyn, neu fel rhagamod, cwblhau contractau.

